Alemtuzumab ar gyfer trin sglerosis ymledol gweithredol sy'n ailwaelu-dychwelyd

Mai 2014

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir alemtuzumab fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl sydd â sglerosis ymledol sy'n ailwaelu-dychwelyd.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych sglerosis ymledol gweithredol sy'n ailwaelu-dychwelyd, a bod eich meddyg o'r farn mai alemtuzumab yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai alemtuzumab fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Cafodd alemtuzumab ei argymell am ei fod yn gweithio cystal â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG ac mae'n costio tua'r un faint.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth

Afiechyd lle caiff rhannau o'r ymennydd a llinyn y cefn eu niweidio gan system imiwnedd y corff yw sglerosis ymledol (MS).

Ceir mathau gwahanol o'r cyflwr. Un math yw sglerosis ymledol sy'n ailwaelu-dychwelyd, lle y caiff pobl fflamychiadau o symptomau (ailwaelu) a chyfnod o wella (gwellhad dros dro) i ddilyn. Sglerosis ymledol gweithredol sy'n ailwaelu-dychwelyd yw'r afiechyd pan fydd yr unigolyn wedi ailwaelu'n glinigol ddifrifol dwywaith yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cyffur yw alemtuzumab (a elwir hefyd yn Lemtrada) sy'n gweithio drwy addasu system imiwnedd y corff i'w atal rhag ymosod ar yr ymennydd a llinyn y cefn.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- Cymdeithas Sglerosis Ymledol, 0808 800 8000, www.mssociety.org.uk
- Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol, 01462 476700, www.mstrust.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-0640-6